**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**ADOLYGIAD POLISI O DROSGLWYDDO'R STOC DAI: ADRODDIAD DRAFFT**

**Mater**

1 Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar ddrafft cyntaf yr adroddiad ar yr adolygiad polisi o drosglwyddo'r stoc dai.

**Argymhelliad**

2 Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad drafft sydd ynghlwm wrth y papur hwn.

**Amseriad**

3 Yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei pharatoi i'w hystyried yn y cyfarfod ar 28 Mawrth.

**Cefndir**

4 Ar ôl i'r Pwyllgor drafod y materion yn ymwneud â'r adolygiad a'r gyfres o argymhellion drafft, mae drafft cyntaf yr adroddiad wedi'i baratoi. Byddai cael sylwadau'r Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn ddefnyddiol. Hefyd, gallai'r aelodau ystyried y llythyr dyddiedig 7 Chwefror oddi wrth y Gweinidog at y Cadeirydd, sy'n sôn am ei hymateb i'r argymhellion drafft ynghyd â'r sesiynau briffio anffurfiol a gafwyd yn ddiweddar.

5 Mae’r mwyafrif o’r gwaith oedd angen ei wneud ar yr adolygiad wedi’i gwblhau erbyn hyn. Yr unig beth sydd ar ôl yw’r cyflwyniad oddi wrth Trowers a Hamlins, sydd wedi’i drefnu ar gyfer y cyfarfod ar 14 Mawrth. Bydd yn cwmpasu perchenogaeth ar gyfer sefydliadau sy’n trosglwyddo’r stoc dai, ac eithrio model traddodiadol ‘Perchenogaeth Gymunedol’. Bydd y Pwyllgor yn gallu addasu’r adroddiad yn dilyn y gwaith hwn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** **Chwefror 2001**